Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

## Ffurflen Gofnodi

**Trosolwg**

**Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r ffurflen hon**

- **I'w hasesu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder**
  (Dilëwch y datganiad nad yw'n berthnasol)

**Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau'r ddeddfwriaeth hon ar y system gyfiawnder yw na fydd yn cael dim effaith neu y bydd yn cael effaith ddibwys** (yn yr achos hwn llenwch y ffurflen hyd at gwestiwn 4.5 a chan gynnwys y cwestiwn hwnnw):

**Dyma'r rhesymau pam:**

***Trosedd dylanwad amhriodol***

Mae ailddrafftio'r drosedd dylanwad amhriodol a gyflwynir gan y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) o ran etholiadau lleol yng Nghymru yn ailadrodd yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Etholiadau 2022 (Deddf 2022) o ran etholiadau a gedwir yn ôl.

Mae'r newidiadau i'r drosedd dylanwad amhriodol yn adlewyrchu'n union y rhai a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf 2022. Amcangyfrifodd y ddogfennaeth ategol ar gyfer Deddf 2022 y byddai'r ailddrafftio yn cael effaith isel ar y system gyfiawnder, gan nodi nad oedd rhwng 81% ac 86% o honiadau ledled y DU yn arwain at gamau pellach o ran etholiadau a gedwir yn ôl, a dim ond un achos llys wedi'i gychwyn yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf.

Mae'r effaith ar gyfer etholiadau datganoledig, sef ffocws yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y System Gyfiawnder, yn sylweddol is. Nid yw'r data a gasglwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn cofnodi'r un achos o ddylanwad amhriodol wedi'i erlyn ers 2013 ar gyfer yr etholiadau hynny sydd bellach wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Arweinir hyn at y casgliad y bydd ailadrodd iaith Deddf 2022 ar gyfer etholiadau datganoledig yn cael effaith fach iawn, neu na fydd yn cael effaith o gwbl, ar y system gyfiawnder.

***Mynd i wariant a reolir yn groes i adran 89B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000***

Bydd trosedd newydd yn cael ei chyflwyno drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn rhan o ddarpariaethau newydd a fydd yn rheoleiddio sut y caiff trydydd partïon fynd i wariant a reolir yn ystod cyfnod a reoleiddir o ran etholiadau annibynnol y Senedd. Bydd y darpariaethau hyn a'r drosedd yn adlewyrchu'r rhai a gyflwynwyd i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda gan Ddeddf 2022 mewn cysylltiad â'r cyfnod a reoleiddir o ran etholiadau i Dŷ'r Cyffredin neu i Gynulliad Gogledd Iwerddon (adran 89A newydd).

Bydd trosedd yn cael ei chyflawni pan fydd trydydd partïon, nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, yn mynd i wariant a reolir gwerth dros £700 yn ystod cyfnod a reoleiddir o etholiad annibynnol y Senedd (fel y'i diffinnir gan baragraff 6 o Atodlen 10 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda). Bydd yr un cosbau yn gymwys i unrhyw achos o dorri'r rheolau ag sy'n gymwys i dorri'r rheolau o ran y ddarpariaeth gyfatebol yn adran 89A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (ar euogfarn ddiannod yng Nghymru a Lloegr: dirwy. ar dditiad: dirwy.). Gellir datrys troseddau presennol sy'n ymwneud â mynd i wariant trydydd parti pan fydd wedi'i wahardd (ee gwario mwy na'r trothwyon cofrestru heb fod wedi cofrestru) naill ai drwy ddulliau sifil neu droseddol. Yn ymarferol, byddai'r Comisiwn Etholiadol yn gyffredinol yn datrys troseddau o'r fath eu hunain.

Er bod hon yn drosedd newydd, er mwyn amcangyfrif yr effaith ar y system gyfiawnder, rhoddwyd ystyriaeth i droseddau gwariant trydydd parti a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru yn ogystal â thystiolaeth a gyflwynwyd yn rhan o'r ddogfennaeth ategol ar gyfer Deddf 2022. Mae dogfennaeth Deddf 2022 yn dod i'r casgliad bod disgwyl i effaith y newidiadau trydydd parti ar y system gyfiawnder fod yn isel, gan nad oes unrhyw achosion perthnasol wedi arwain at achosion troseddol. Mae gorfodaeth dramor o reolau yn erbyn gwariant tramor eisoes yn ofynnol mewn cysylltiad â'r trothwyon cofrestru ymgyrchwyr trydydd parti presennol. Yn yr un modd â dylanwad amhriodol, nid oes unrhyw droseddau gwariant trydydd parti wedi'u herlyn yng Nghymru na honiadau wedi'u gwneud ers 2013. Am y rhesymau hyn, a'r ffaith yr asesir y bydd y ddwy ddarpariaeth yn cael effaith fach iawn neu ddim effaith o gwbl, dim ond hyd at adran 4.5 y mae'r Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi'i gwblhau.

1.1. Teitl gweithio'r Bil

| |
|---|
| Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) |

**2. Manylion cyswllt yr arweinydd polisi**

| | |
|---|---|
| 2.1. Enw / teitl swydd | |
| 2.2. Adran / swyddfa / maes busnes | |
| 2.3. Rhif ffôn | |
| 2.4. Cyfeiriad e-bost | |
| 2.5. a) Dyddiad cyflwyno'r ffurflen hon<br>2.6. b) Erbyn pryd y mae angen ymateb? | |

**3. Manylion cyswllt ychwanegol**

| | |
|---|---|
| 3.1. Cyswllt Cyfreithiol | |
| 3.2. Rhif ffôn | |
| 3.3. Cyfeiriad e-bost | |

**4. Gwybodaeth gyffredinol**

4.1. Rhowch fanylion cyswllt a) eich swyddog arweiniol ar gyfer gwerthuso'r costau neu'r arbedion;

b) yr arweinydd Polisi Cyfiawnder, os yw'n hysbys.

| |
|---|
| |

4.2. Ydych chi wedi hysbysu'r swyddfa farnwrol am eich cynigion drwy gwblhau Cyfarwyddyd Desg 7? (gofynnwch am gyngor gan eich cynghorwyr cyfreithiol)

☐ Ydym

| |
|---|
| Ydym |

4.3. Yn fras, beth yw eich cynnig? (dim mwy na hanner tudalen) *(Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i helpu swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddeall bwriad y newid arfaethedig er mwyn gallu rhoi sylwadau llawn ar yr effeithiau posibl*).

***Trosedd dylanwad amhriodol***

Y drosedd etholiadol dylanwad amhriodol yw un o'r troseddau etholiadol clasurol a chaiff ei chyflawni pan fo unigolyn yn ceisio rhoi pwysau i orfodi etholwr i beidio â phleidleisio, neu bleidleisio mewn modd na fyddai wedi gwneud pe na bai pwysau wedi'i roi.

Mae'r drosedd eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (adran 115 ar gyfer etholiadau datganoledig ac adran 114A ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl) ac yn erthygl 81 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Mae'r drosedd yn bodoli yn rhan o gyfres o fesurau sy'n ceisio gweithredu fel rhwystr i'r rhai a fyddai am wneud niwed i brosesau democrataidd.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n disgrifio'r drosedd wedi dyddio ac ni cheir yr eglurder sydd ei angen er mwyn erlyn achosion o ddylanwad amhriodol. O ganlyniad, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn sicrhau amddiffyniad digonol i etholwyr. Dyma oedd un o gasgliadau dyfarniad 2015 y Comisiynydd Mawrey yn Erlam & Ors vs.

Y rhai a fydd yn elwa fwyaf ar y ddeddfwriaeth wedi'i diweddaru fydd etholwyr, a'r heddlu ac erlynwyr y mae'n ofynnol iddynt ystyried a yw dylanwad amhriodol wedi'i gyflawni. Bydd iaith eglurach y drosedd wedi'i hailddrafftio yn gweithredu fel rhwystr i'r rhai a fyddai am geisio rhoi pwysau amhriodol ar etholwr. Y bwriad yw y bydd y drosedd yn fwy syml i'w herlyn pe bai achosion yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid ydym yn rhag-weld nifer uwch o erlyniadau gan fod tystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiwn Etholiadol ers 2013 yn awgrymu nad oes, o bosibl, unrhyw droseddau o ddylanwad amhriodol wedi cael eu herlyn (gweler ffigurau isod).

O blith pedwar cyhuddiad posibl yn etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru ers 2013, ni chymerwyd camau pellach mewn tri achos ac nid oes data ar gyfer un achos, hy nid oes achosion wedi'u herlyn ers 2013. Fel y nodwyd ar gyfer yr asesiad effaith o ran Deddf Etholiadau 2022 y DU, nid oes data i ddangos faint o erlyniadau ychwanegol fydd gan nad ydym yn gwybod faint o honiadau / deisebau etholiadol fyddai wedi arwain at gamau pellach, pe bai'r gyfraith wedi bod yn gliriach ar y pryd. Ni fyddai unrhyw amcangyfrifon o effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor sy'n seiliedig ar y data cyfyngedig cyfredol yn rhai cadarn. Mae hyn yn unol â'r asesiad sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Etholiadau 2022 y DU.

***Mynd i wariant a reolir yn groes i adran 89B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000***

Mewnosododd adran 26 o Ddeddf 2022 adran 89A newydd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda sy'n atal trydydd parti, nad yw'n gallu cofrestru yn drydydd parti cydnabyddedig o dan adran 88 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, neu nad yw'n gymdeithas anghorfforedig sydd â'r cyswllt angenrheidiol â'r DU, rhag mynd i wariant a reolir (gan gynnwys gwariant tybiannol a reolir) gwerth dros £700 yn ystod cyfnod a reoleiddir o etholiad Seneddol y DU ac etholiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Bydd y Bil yn mewnosod adran newydd arall yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (adran 89B) a fydd, i raddau helaeth, yn atgynhyrchu'r cyfyngiad hwn mewn perthynas â chyfnodau a reoleiddir o etholiadau annibynnol y Senedd a bydd yn cymhwyso'r un cosbau ar gyfer unrhyw achos o dorri'r rheolau. Mewn perthynas ag etholiadau annibynnol y Senedd, dim ond trydydd partïon sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol o dan adran 88 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda a fydd yn gallu mynd i wariant a reolir yn ystod y cyfnod a reoleiddir perthnasol.

Mae euogfarnau am dwyll etholiadol ledled y DU yn isel ac yn arbennig o isel yng Nghymru. Bydd y ddwy drosedd yn bennaf yn gweithio gyda'r gyfres o droseddau etholiadol i weithredu fel rhwystr i'r rhai a fyddai am gyflawni troseddau. Os bydd yn llwyddo, bydd yr Heddlu a'r Swyddogion Canlyniadau yn adrodd bod ganddynt fwy o hyder wrth gymhwyso'r ddeddfwriaeth eglurach mewn sefyllfaoedd gweithredol. Byddai erlynwyr yn adrodd bod ganddynt fwy o hyder wrth erlyn troseddwyr.

Fodd bynnag, er y byddai mwy o hyder yn cael ei ystyried yn llwyddiant, nid ydym yn rhag-weld y bydd y newidiadau hyn yn arwain at lawer mwy o achosion yn cael eu cyflwyno. Y rheswm dros hyn yw mai ychydig iawn o droseddau etholiadol sy'n cael eu cyflawni mewn etholiadau datganoledig yn gyffredinol, ac nid oes unrhyw achosion o ddylanwad amhriodol na throseddau gwariant trydydd parti wedi'u herlyn yng Nghymru ers 2013.

4.4. Nodwch pryd y byddwch yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth hon a'r camau gorfodi sy'n deillio ohoni.

Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 a'r etholiadau lleol cyffredin nesaf yn 2027. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda'r Swyddogion Un Pwynt Cyswllt ym mhedwar awdurdod heddlu Cymru i gofnodi nifer yr achosion ar ôl pob etholiad. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chymharu ag etholiadau'r blynyddoedd blaenorol i ganfod a oes unrhyw gynnydd mewn achosion

4.5. A yw'r cynnig deddfwriaethol hwn yn debyg mewn unrhyw ffordd i ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno yn Lloegr? Os ydyw, enwch y ddeddfwriaeth honno a nodwch isod unrhyw ffyrdd y bydd y ddeddfwriaeth a gyflwynir yng Nghymru yn wahanol.

Os nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth Lloegr, mae'n bosibl na fydd angen cwblhau pob rhan o'r ffurflen.

***Dylanwad amhriodol***

Mae Deddf 2022 yn mewnosod adran 114A newydd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (drwy Ran 1, Atodlenni 5 ac 8). Mae'r adran 114A newydd yn cynnwys iaith eglurach ar gyfer y drosedd dylanwad amhriodol o ran etholiadau a gedwir yn ôl. Caiff hyn ei ailadrodd ar gyfer etholiadau datganoledig fel nad oes gwahaniaeth yn niffiniad y drosedd.

***Mynd i wariant a reolir yn groes i adran 89A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000***

Mewnosododd adran 26 o Ddeddf 2022 adran newydd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (adran 89A) sy'n atal trydydd parti, nad yw'n gallu cofrestru yn drydydd parti cydnabyddedig o dan adran 88 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, neu nad yw'n gymdeithas anghorfforedig sydd â'r cyswllt angenrheidiol â'r DU, rhag mynd i wariant a reolir (gan gynnwys gwariant tybiannol a reolir) gwerth dros £700 yn ystod cyfnod a reoleiddir o etholiad Seneddol y DU neu etholiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae hyn, i raddau helaeth, yn cael ei ailadrodd ar gyfer y cyfnodau a reoleiddir o etholiadau annibynnol y Senedd.

4.6. Nodwch enw unrhyw ddeddfwriaeth arall berthnasol. Sut ydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu rhoi ar waith?

Amherthnasol

4.7. Nodwch erbyn pa ddyddiad y byddwch yn disgwyl a) i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym, b) y dyddiad y bydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

Amherthnasol

4.8 Os ydych yn newid neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba rai o'r grwpiau canlynol fydd y cynnig yn effeithio, ac ym mha amgylchiadau y bydd hynny'n digwydd? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Unigolion

☐ Sefydliadau Preifat (ee Busnesau)
☐ Sefydliadau Cyhoeddus (ee Adrannau'r Llywodraeth)

Amherthnasol

4.9 A yw eich deddfwriaeth yn effeithio ar Gymru yn unig neu a ydych chi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill? Ticiwch bob un sy'n berthnasol a darparwch fanylion bras fel bo'n briodol, gan gynnwys a fydd eich cynnig yn creu cyfreithiau gwahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.

Nodwch, ac eithrio'r tribiwnlysoedd datganoledig, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweinyddu'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn unig. Trafodwch ag uned ddatganoli'r Weinyddiaeth os ydych yn rhag-weld y gallai eich cynnig effeithio ar y llysoedd neu'r carchardai yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon

☐ Cymru yn unig
☐ Lloegr
☐ Yr Alban
☐ Gogledd Iwerddon
☐ Arall (Nodwch)

Amherthnasol

4.10 Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n ymweld â Chymru neu ar eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon:

a) pa drefniadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn gwella ymwybyddiaeth yn barhaus ynglŷn â'r dull gweithredu gwahanol yng Nghymru o ran deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r mater hwn?

b) beth fydd y goblygiadau i'r asiantaethau gorfodi, o ran cymryd camau yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru?

Amherthnasol

4.11 Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

Amherthnasol

4.12 Os ydych yn creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

Amherthnasol

**Troseddau a Chosbau a Sancsiynau Sifil**

4.13. Pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu creu / diwygio? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Sancsiynau Sifil
☐ Cosbau Penodedig
☐ Gorchmynion Sifil
☐ Sancsiynau Troseddol
☐ Troseddau
☐ Arall (Nodwch)

Amherthnasol

4.14. Os ydych yn creu trosedd, pa un o’r rhain yw hi?

☐ Trosedd ddiannod yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig)
☐ Trosedd neillffordd
☐ Trosedd dditiadwy yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)

Mewn achosion lle bwriedir i’r gosb uchaf fod yn ddirwy ddiderfyn, ac y gellir cyfiawnhau trosedd neillffordd, esboniwch pam nad yw trosedd ddiannod yn unig yn cael ei hystyried yn briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os mai ychydig o achosion, os o gwbl, a ragwelir.

Amherthnasol

.4.15. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi eich cynnig deddfwriaethol a sut byddant yn mynd ati i wneud y rôl hon? A fydd mwy o angen / llai o angen am gamau gorfodi? Cofiwch hefyd gynnwys costau disgwyliedig y camau gorfodi a sut y byddant yn cael eu hariannu.

| |
|---|
| Amherthnasol |

4.16 Sawl achos ydych chi'n eu rhag-weld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

| |
|---|
| Amherthnasol |

4.17 A ydych chi'n disgwyl i'r achosion gael gwrandawiad mewn Llys Ynadon, Llys y Goron neu Lys Sifil? Beth fydd y cyfrannau?

| |
|---|
| Amherthnasol |

4.18 Nodwch uchafswm y ddirwy a/neu'r cosbau carchar perthnasol. Pan fo troseddau'n cynnwys cosbau o ddirwy neu gyfnod yn y carchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

| |
|---|
| Amherthnasol |

4.19 Rhowch fanylion unrhyw droseddau a / neu gosbau procsi neu bresennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt. Os ydych yn adlewyrchu / cymharu deddfwriaeth bresennol, sicrhewch eich bod yn troi at y fersiynau diweddaraf o'r ddeddfwriaeth (drwy Westlaw, y gwasanaeth ymchwil cyfreithiol ar-lein) gan nad yw'r rhain ar gael ar-lein bob amse. Gweler tudalen 8 o'r canllawiau JSII ar sut i gael data yn ymwneud â nifer yr achosion a gyflwynwyd o dan y ddeddfwriaeth yr ydych wedi'i nodi.

| **Deddfwriaeth / Adran** | **Trosedd** | **Nifer yr achosion** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

4.20 Rhowch fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol (lle bo hynny'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/making-new-criminal-offences.

Amherthnasol

4.21 Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut mae hyn yn gymesur â'r drosedd sydd i'w chreu?

Amherthnasol

4.22 A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, rhowch eich asesiad o ba mor debygol ydyw i unigolion neu fusnesau gymryd camau yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon

Amherthnasol

**5. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS) a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru**

**Amcangyfrif y newid i lwyth achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig)**

5.1 A ydych chi'n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i HMCTS a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Darparwch amcangyfrif o'r newid i nifer yr achosion fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

Amherthnasol

5.2 Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / tribiwnlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

☐ Na fyddent
☐ Byddent (rhowch fanylion)

Amherthnasol

**Hawliau Apelio:**

5.3 A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu'n estyn awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, sut ydych chi'n disgwyl y bydd y rhain yn cael eu trin (h.y. a fyddant yn cael eu gweinyddu gan HMCTS neu gan Dribiwnlysoedd Cymru)?

| |
|---|
| Amherthnasol |

5.4 A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os felly, a yw hyn wedi'i drafod ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

| |
|---|
| Amherthnasol |

**Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod**

5.5 I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

**Erlyn a Gorfodi**

5.6 Os mai ychwanegu trosedd newydd yw'r cynnig, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na fydd, nodwch pwy fydd yn erlyn.

| |
|---|
| Amherthnasol |

5.7 A fydd y cynnig yn gofyn am systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol? Os bydd, pwy ydych chi'n disgwyl fydd yn eu gorfodi?

| |
|---|
| Amherthnasol |

**Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Cosbau a Dedfrydu HMCTS**

5.8 Ydych chi'n rhag-weld y bydd rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

Amherthnasol

5.9 A fydd y cynigion yn gofyn am diwygio canllawiau dedfrydu a / neu gosbau?

Amherthnasol

**6. Cymorth Cyfreithiol a Ffioedd Llys**

6.1 Pa dystiolaeth sydd y bydd modd i'r unigolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt gael gafael ar y canlynol a'u fforddio:

a) cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawiad teg

b) ffioedd llys cysylltiedig

Pa gostau cyfreithiol a allai fod yn daladwy gan bob parti mewn achos cyffredin, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddieuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran o'r costau hynny?

Amherthnasol

6.2 Pan weithredir eich cynnig, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

☐ Troseddol
☐ Sifil (gan gynnwys Teuluoedd)
☐ Ceisio Lloches
☐ Dim cymorth cyfreithiol ar gael (darparwch dystiolaeth ategol)

Amherthnasol

6.3 . Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

## 7. Y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai

### Yr Effaith ar Wasanaethau Carchardai Ei Fawrhydi

7.1 A fydd y cynigion yn arwain at newid yn nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os felly, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hwn o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

Amherthnasol

7.2 A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhowch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig ar y gwasanaethau prawf.

Amherthnasol

## 8. Y Prif Effeithiau a nodwyd ar y System Gyfiawnder

### 8.1 Niferoedd (estynnwch yr hyd os oes angen):-

DS ym mhob achos, dylech dybio ffigur blynyddol cyfartalog neu nodi'n glir os ydych yn ystyried cyfnod amser gwahanol. Os yw'n bosibl y byddai gwahaniaeth mawr rhwng y nifer cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd cyntaf, nodwch wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau isod. **Gweler uchod – dim effaith**.

| **Nodwch pa wasanaeth llys, tribiwnlys neu Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno.** | **Niferoedd** (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a hefyd yr amrediad isaf-uchaf) | **Math** (ee lle mewn carchar, gwrandawiad tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| Troseddau a Sancsiynau | | | |
| | | | |
| | | | |
| Cosbau Sifil | | | |
| | | | |
| | | | |
| Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF | | | |
| | | | |
| | | | |
| Tribiwnlysoedd Cymru | | | |
| | | | |
| | | | |
| Cymorth Cyfreithiol | | | |

| **Nodwch pa wasanaeth llys, tribiwnlys neu Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno.** | **Niferoedd** (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a hefyd yr amrediad isaf-uchaf) | **Math** (ee lle mewn carchar, gwrandawiad tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

**8.2.** Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai (gallwch ymestyn yn ôl yr angen, llenwch yr isod dim ond os nad yw'r gosb uchaf yn ddirwy). **Gweler uchod – dim effaith.**

| **Trosedd** | **Cosb Uchaf** | **Nifer yr erlyniadau y flwyddyn** (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Y gyfran debygol fydd yn cael dedfryd o garchar yn syth** | **Hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar a roddir** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| Nodiadau: | | | | |

**Cofiwch fod rhaid i unrhyw gostau neu arbedion a nodwyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r system gyfiawnder / gwaith ychwanegol gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol o'ch deddfwriaeth.**